

Enghreifftiau o Destunau Esbonio

Amser presennol oni bai ei fod yn esboniad hanesyddol

Datganiad a champau rhesymegol i'w dilyn

Paragraffau yn aml yn dechrau â brawddeg bynciol

Diagramau a siartiau llif yn helpu'r ysgrifennu

Manylion lle bo angen

Termau technegol


Cysyllteiriau: achos ac effaith:

oherwydd ... er mwyn ...
trwy ... i ...
o ganlyniad ...

effaith hyn yw ... felly ...
os ... yna ...

Meini Prawf Llwyddiant

- Ydy'r esboniad yn glir?
- Oes unrhyw gam heb ei gynnwys?
- A ddefnyddiwyd yr iaith dechnegol angenrheidiol yn effeithiol?
- Oes dilyniant rhesymegol?



Pam dewiswyd Tryweryn ar gyfer y Gronfa Ddŵr?

Mae'n siŵr eich bod chi i gyd wedi clywed am hanes boddi Cwm Tryweryn. Ydych chi erioed wedi holi pam dewiswyd yr ardal hon?

Oherwydd bod galw mawr am gyflenwad o ddŵr i bobl Lerpwl, roedd lleoliad y Cwm yn gyfleus ar gyfer y ddinas a oedd ryw 64 milltir i ffwrdd. Ychwanegiad oedd hwn i'r gronfa ddŵr a oedd yn bodoli'n barod yn Efyrynwy, er mwyn darparu cyflenwad o ddŵr digonol i'r dyfodol. Ystyriwyd tirwedd gul Capel Celyn yn berffaith.



Cost adeiladu'r argae yng Nghapel Celyn oedd £16 miliwn, ychydig o filoedd yn llai nag y byddai mewn ardaloedd eraill a oedd yn cael eu hystyried. Gan fod llawer o glai yn y tir yn yr ardal hon, byddai'r gost adeiladu yn rhatach. Yn ogystal, roedd Capel Celyn yn llai poblog, ac yn y pendraw ni fyddai'n rhaid talu iawndal i nifer fawr o bobl. Byddai hyn felly yn arbed arian i'r Llywodraeth.

Yn y diwedd, er gwaetha'r gwrthwynebiad gan y trigolion, dewiswyd y safle yng Nghwm Tryweryn ac adeiladwyd y gronfa ddwr.

Pwrpas:

Esbonio sut mae proses neu rywbeth yn gweithio; esbonio achos ac effaith

Cynulleidfa


Rhywun sydd am ddeall proses

Dulliau o baratoi/cynllunio:

- Athro/athrawes yn modelu eglurhad fel tasg ysgrifennu ar y cyd
- Dysgwyr yn ymchwilio i ffeithiau ac yn creu nodiadau, diagramau a/neu siartiau llif i ddangos y broses, e.e. diagram sy'n dangos ymarferion cylch ymarfer
- Dysgwyr yn ymarfer rhoi eglurhad ar lafar i gynulleidfa, e.e i grŵp neu ddosbarth
- Dysgwyr yn defnyddio dulliau drama i atgyfnerthu'r dysgu, e.e. seiberfwlio

Datblygwyd gan Lisa Hearne a Mari Owen (o Sgerbydau Sue Palmer a "Datblygu uwch sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm" (LICC; Mawrth 2010)

Esbonio



Nodweddion ieithyddol nodweddiadol:

- Ysgrifennu yn yr amser presennol, e.e. mae angen ... ar y car
- Defnyddio cysyllteiriau amser, e.e. yna, nesaf ac/neu gysyllteiriau achos, e.e. oherwydd, felly
- Defnyddio termau technegol pan fo hynny'n briodol
- Wedi'i drefnu ar ffurf datganiad cyffredinol a ddilynir gan gyfres o gamau rhesymegol nes bod yr esboniad yn gyflawn
- Mae'r ysgrifennu'n cynnwys manteision, diagramau a siartiau llif
- Yn fanwl pan fo angen – yn cynnwys gwybodaeth yn aml

Strwythur nodweddiadol

- Cyfres o gamau rhesymegol, esboniadol (yn aml mewn trefn gronolegol)
- Paragraffau yn aml yn dechrau â brawddeg bynciol

Cyd-destunau posib:

Gwyddoniadur

Gwerslyfr gwyddoniaeth

Esboniad sy'n ateb cwestiynau fel:

- Sut mae inswleiddio'n gweithio?
- Beth sy'n achosi'r tymhorau?
- Sut mae'r gylchred ddŵr yn gweithio?
- Sut wnaeth y Chwyldro Diwydiannol effeithio ar Gymru?
- Sut mae tortsh sy'n defnyddio batris yn gweithio?
- Beth achosodd y Rhyfel Byd Cyntaf?
- Pam mae'r arfordir yn cael ei erydu?
- Beth sy'n digwydd pan fydd llosgfynydd yn echdorri?
- Pam mae angen rheolau ysgol?

Meini prawf llwyddiant

- Ydy'r esboniad yn glir?
- Oes unrhyw gam heb ei gynnwys?
- A ddefnyddiwyd yr iaith dechnegol angenrheidiol yn effeithiol?
- Oes dilyniant rhesymegol?
- Oes diagramau i gefnogi'r esboniad?